


CHWARAE'R GÊM YN GALL



Pum diwrnod
Pump munud
Pum her





CROESO I'R HER!

Mae eich antur yn dechrau yma...

Dros y pum diwrnod nesaf, byddi di'n cwblhau pum her hwyllog gyda dy riant neu ofalwr.
Mae pob her yn dy helpu i bweru fyny dy wybodaeth am gemau ac i ddod yn chwaraewr
mwy call a diogel.

Ar hyd y daith byddi di'n:

- ✓ Dysgu oedolyn am dy hoff gemau
- ✓ Cwblhau heriau hwyllog
- ✓ Dysgu pethau newydd am chwarae gemau fideo
- ✓ Darganfod sut i aros yn fwy diogel ar-lein
- ✓ Ennill dy dystysgrif Pencampwr Pweru Fyny

Mae dy dasg yn cynnwys:

-  Archwilio dy hoff gemau
-  Dod yn dditectif sgôr oedran
-  Dysgu am ffrindiau ar-lein
-  Cwblhau her gwario call
-  Creu cytundeb gyda dy deulu am chwarae gemau

Cwblhau'r pum her i ddatgloi dy dystysgrif ar y diwedd!

BAROD?

Dere i chwarae'r gêm yn gall!

Enw:

Dosbarth:


Ysgol:

Cyn i ti ddechrau



Rhieni a gofalwyr:

Cymerwch funud i ddarllen y dudalen hon cyn dechrau'r her.



Mae tua thri chwarter o blant yn y DU yn chwarae gemau fideo ar-lein.

Gall chwarae gemau ar-lein fod yn ffordd wych o ddysgu, bod yn greadigol a chymdeithasu, ond mae'n bwysig bod plant yn cael y gefnogaeth gywir i'w helpu i aros yn ddiogel wrth chwarae.

Y newyddion da? Does dim angen i chi fod yn arbenigwr ar gemau i helpu plant i gael profiadau mwy diogel a mwy cadarnhaol wrth chwarae gemau ar-lein.

Gall camau syml wneud gwahaniaeth mawr, fel gwirio bod oedran eich plentyn wedi'i gofrestru'n gywir ar ei blatfformau gemau, siarad

yn rheolaidd am bwy mae'n chwarae gyda nhw ar-lein, a newid gosodiadau diogelwch gyda'ch gilydd.

Mae'r her hon wedi'i chynllunio i helpu i ddechrau'r sgysiau hynny gartref.

Dros y pum diwrnod nesaf, byddwch yn cwblhau pum gweithgaredd byr gyda'ch gilydd, pob un yn cymryd tua 5-10 munud.

Nid profi eich gwybodaeth nac ychwanegu at eich rhestr o bethau i'w gwneud yw'r nod.

Y nod yn syml yw creu cyfleoedd i siarad, gwrando a dysgu gyda'ch gilydd.

Sut mae'n gweithio



Yr her: Gadael i dy blentyn arwain



Pweru rhieni: Cam syml y gall rhieni neu ofalwyr ei gymryd i helpu i gefnogi chwarae gemau fideo mwy diogel.



Sgwrsio: Dechrau'r sgwrs.



Cwblhau'r her: Ticiwch y bocs pan fyddwch chi wedi llwyddo gyda'n gilydd.

Tracio'r her

☐

Diwrnod 1 wedi'i gwblhau

☐

Diwrnod 2 wedi'i gwblhau

☐

Diwrnod 3 wedi'i gwblhau

☐

Diwrnod 4 wedi'i gwblhau

☐

Diwrnod 5 wedi'i gwblhau

Diwrnod 1: Bydd yn gampus gyda gemau



Dy her

Heddiw, ti yw'r arbenigwr!

Dangos dy hoff gêm i dy riant neu ofalwr.

Dywed wrthyn nhw:

☐

Beth yw enw'r gêm

☐

Beth rwyf ti'n ei wneud yn y gêm

☐

Pam rwyf ti'n mwynhau ei chwarae

☐

Gyda phwy rwyf ti'n chwarae

☐

Wyt ti'n ei chwarae ar-lein



Pweru rhieni

Gofynnwch gwestiynau i'ch plentyn am y gêm a gadewch iddo ddangos i chi sut mae'n gweithio.

Gall cymryd diddordeb yn y gemau mae eich plentyn yn eu chwarae eich helpu i ddeall eu byd ar-lein yn well a'i gwneud hi'n haws cael sgysiau rheolaidd am y bobl maen nhw'n chwarae gyda nhw ar-lein.



Sgwrsio

Beth rwyf ti'n ei fwynhau fwyaf am y gêm hon?



Yr her wedi'i chwblhau

☐

Gwnaethom gwblhau her heddiw gyda'n gilydd

Diwrnod 2: Ditectif sgôr oedran

 Dy her

Dod o hyd i sgôr oedran dy hoff gêm.

Gêm: _____

Sgôr oedran: _____

Pweru rhieni

Beth mae'r sgôr oedran yn ei olygu? Trafodwch pam mae gemau'n cael eu dylunio ar gyfer gwahanol grwpiau oedran.

Wrth i chi siarad, cymerwch funud i wirio bod oedran eich plentyn wedi'i gofrestru'n gywir ar y platfformau gemau y mae'n eu defnyddio. Gall gwybodaeth oedran gywir helpu i sicrhau bod y nodweddion diogelwch a'r mesurau diogelu priodol ar waith.

Sgwrsio

Fyddech chi'n argymhell y gêm hon i frawd, chwaer, cefnder neu ffrind iau? Pam?

Yr her wedi'i chwblhau

☐ Gwnaethom gwblhau her heddiw gyda'n gilydd

Diwrnod 3: Her gwirio ffrindiau

 Dy her

Edrycha'n fanylach ar y bobl rwyf ti'n chwarae gyda nhw.

Dangos i dy riant neu dy ofalwr:

- ☐ Ffrindiau rwyf ti'n eu hadnabod yn y byd go iawn
- ☐ Ffrindiau rwyf ti wedi cwrdd â nhw drwy chwarae gemau ar-lein
- ☐ Pwy rwyf ti'n chwarae gyda nhw yn fwyaf aml

Pweru rhieni

Siaradwch â'ch plentyn am bwy maen nhw'n mwynhau chwarae gemau gyda nhw a beth sy'n gwneud rhywun yn ffrind da ar-lein.

Gall sgwrsio'n rheolaidd eich helpu i gadw golwg ar bwy mae eich plentyn yn chwarae gemau gyda nhw ar-lein, a helpu'ch plentyn i deimlo'n gyfforddus yn dod atoch os bydd rhywbeth yn eu poeni. Gall sicrhau bod y gosodiadau hyn yn addas i'ch plentyn helpu i greu profiad chwarae gemau fideo mwy diogel.

- ☐ Pwy sy'n gallu anfon cais ffrind
- ☐ Pwy all anfon negeseuon atynt
- ☐ Pwy all ymuno â'u gemau

Sgwrsio

Beth fyddet ti'n ei wneud pe bai rhywun doeddet ti ddim yn ei adnabod eisiau ymuno â dy gêm neu ddechrau sgwrsio gyda ti?

Yr her wedi'i chwblhau

☐ Gwnaethom gwblhau her heddiw gyda'n gilydd

Diwrnod 4: Her gwario call

 Dy her

Dywed wrth dy riant neu ofalwr am rywbeth y gelli ei brynu yn un o dy gemau.

Alli di ddod o hyd i'r canlynol:

- ☐ Eitem neu uwchraddiad
- ☐ Y pris
- ☐ A wyt ti'n meddwl ei fod yn werth chweil

Pweru rhieni

Gall ychydig o wiriadau syml helpu i atal gwario annisgwyl a chadw cyfrifon gemau'n ddiogel. Gwiriwch a yw:

- ☐ Cerdyn talu wedi'i gadw ar y cyfrif
- ☐ Rheolaethau gwario wedi'u troi ymlaen
- ☐ Cyfrineiriau'n cael eu cadw'n gyfrinachol

Sgwrsio

Wyt ti erioed wedi bod eisiau prynu rhywbeth mewn gêm? Beth oedd e?

Yr her wedi'i chwblhau

- ☐ Gwnaethom gwblhau her heddiw gyda'n gilydd

Diwrnod 5: Cytundeb gemau'r teulu

 Dy her

Gyda dy riant neu ofalwr, cer ati i greu dy gytundeb gemau.

Dewisa dri addewid:

- ☐ Rydym wedi cofrestru gyda'r oedran cywir ac yn chwarae gemau sy'n briodol i oedran
- ☐ Rydym yn dweud wrth oedolyn os oes rhywbeth yn ein poeni
- ☐ Rydym yn gofyn cyn prynu unrhyw beth
- ☐ Rydym yn cymryd seibiannau rheolaidd o'r sgrin
- ☐ Rydym yn trin pobl eraill â pharch ar-lein

Neu gadewch i ni greu rhai ein hunain!
Ein haddewidion:

1.

2.

3.

Pweru rhieni

Gall sgysiau rheolaidd a disgwyliadau clir o fewn y teulu helpu i greu arferion chwarae gemau fideo mwy diogel.

Defnyddiwch yr hyn rydych wedi'i ddysgu yr wythnos hon i gytuno sut y byddwch yn parhau i siarad am chwarae gemau, gwirio gosodiadau cyfrifon a chefnogi chwarae diogel ar-lein gyda'ch gilydd.

Sgwrsio

Beth yw un peth newydd rwy'ti wedi'i ddysgu yr wythnos hon?

Yr her wedi'i chwblhau

- ☐ Gwnaethom gwblhau her heddiw gyda'n gilydd

LLONGYFARCHIADAU

Mae'n swyddogol – rwy't ti'n

BENCAMPWR PWERU

1 Gwirio

bod oedran cywir eich
plentyn wedi'i gofrestru ar ei
blatfform gemau fideo
ar-lein

2 Sgwrsio

gyda'ch plentyn yn rheolaidd i
gael gwybod pwy maen nhw'n
chware gemau ar-lein gyda
nhw

3 Newid

gosodiadau diogelwch i
ddiogelu eich plentyn rhag
risgiau

Gall camau bach wneud gwahaniaeth mawr. Drwy ddangos diddordeb yn barhaus, siarad yn rheolaidd a gwirio'r gosodiadau cywir, gall teuluoedd helpu i greu profiadau chwarae gemau fideo mwy diogel a mwy cadarnhaol. Cyn gorffen, atebwch y tri chwestiwn hyn gyda'ch gilydd:

Un peth rydw i wedi'i
ddysgu yr wythnos hon:

Un peth y byddaf yn
parhau i'w wneud:

Fy hoff gêm ar hyn
o bryd yw:


Datganiad y rhiant/gofalwr

Rwy'n cadarnhau bod _____ a fi wedi cwblhau her
Chwarae gemau'n gall gyda'n gilydd.

Enw:

Dosbarth:

Ysgol:





RHIENI A GOFALWYR



Dywedwch wrthym beth
oeddech chi'n ei feddwl o her
Chwarae Gemau'n Gall.